Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1241 (Cy. 200)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau a wneir, a hysbysiadau a chyfarwyddydau a roddir, gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") o dan adrannau 45 a 78 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais am adolygiad.

Mae rheoliad 5 yn pennu'r argymhellion y caniateir eu gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau a'r seiliau dros yr argymhellion hynny.

Mae rheoliadau 6 i 8 yn ymdrin â phwerau a dyletswyddau'r adolygydd penderfyniadau, y ceisydd a'r Comisiwn yn ystod y broses adolygu.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymateb i argymhelliad y mae'r adolygydd penderfyniadau yn argymell ynddo fod y Comisiwn yn ailystyried.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1241 (Cy. 200)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Tachwedd 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *27 Tachwedd 2025* |
| *Yn dod i rym* | *25 Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 79(3) a (4) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Rhagfyr 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr adolygydd penderfyniadau" ("*the decision reviewer*") yw'r person neu'r panel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(1) o Ddeddf 2022;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

ystyr "Deddf 2022" ("*the 2022 Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

ystyr "y partïon" ("*the parties*") yw'r ceisydd a'r Comisiwn.

(**1**) 2022 dsc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Gwneud cais am adolygiad**

**3.** At ddibenion adrannau 45 a 78 o Ddeddf 2022, rhaid gwneud cais am adolygiad i'r adolygydd penderfyniadau—

(a) yn ysgrifenedig, a

(b) o fewn 40 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr hysbysir y ceisydd am y penderfyniad neu'r dyddiad y mae'n cael yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.

**4.** Rhaid i gais bennu'r seiliau y ceisir adolygiad arnynt a rhaid iddo gynnwys—

(a) copi o'r penderfyniad, yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd sydd i'w adolygu, gan gynnwys unrhyw resymau a roddir gan y Comisiwn, a

(b) unrhyw wybodaeth ategol y mae'r ceisydd yn dymuno i'r adolygydd penderfyniadau ei hystyried.

**Argymhellion gan yr adolygydd penderfyniadau**

**5.** Caiff yr adolygydd penderfyniadau argymell—

(a) na ddylai'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau gweithredu, pan na fo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod unrhyw reswm, neu pan na fo'n canfod rheswm digonol, i'r Comisiwn ailystyried y penderfyniad, yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, neu

(b) y dylai'r Comisiwn ailystyried ei benderfyniad, pan—

(i) bo'r Comisiwn wedi methu â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol,

(ii) bo'r ceisydd wedi darparu gwybodaeth newydd,

(iii) bo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod nad yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw un neu ragor o ffeithiau perthnasol, neu

(iv) bo'r adolygydd penderfyniadau yn ystyried bod y penderfyniad yn anghymesur.

**Y weithdrefn adolygu**

**6.** Ar ôl cael cais am adolygiad, rhaid i'r adolygydd penderfyniadau—

(a) anfon copi o'r cais ac unrhyw wybodaeth ategol i'r Comisiwn, a

(b) dweud wrth y partïon pa mor hir y mae'r adolygydd penderfyniadau yn credu y bydd yr adolygiad yn ei gymryd.

**7.**—(1) Caiff yr adolygydd penderfyniadau—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y partïon, a

(b) gwahodd y partïon i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymateb i unrhyw wybodaeth ychwanegol.

(2) Rhaid i'r partïon ymateb i unrhyw gais am wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais ddod i law.

(3) Os yw'r adolygydd penderfyniadau yn gofyn am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol gan barti, rhaid iddo anfon copi o'r canlynol at y parti arall—

(a) unrhyw gais am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol, a

(b) unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol a ddarperir.

**8.** Rhaid i'r adolygydd penderfyniadau lunio argymhelliad ysgrifenedig a'i anfon at y partïon.

### Dyletswyddau'r Comisiwn ar ôl adolygiad

**9.** Ar ôl cael argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau, rhaid i'r Comisiwn—

(a) ailystyried ei benderfyniad, ei hysbysiad neu ei gyfarwyddyd, os argymhellir gwneud hynny, a

(b) hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei ailystyriaeth, gan gynnwys ei resymau, o fewn 40 o ddiwrnodau i'r argymhelliad ddod i law.

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Tachwedd 2025